Cartrefi Cymunedol Cymru, Ffederasiwn y Meistri Adeiladu & Ffederasiwn Adeiladu Cartrefi Cymru

Cynllunio ar gyfer 20,000 o gartrefi

chcymru.org.uk

Argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r systemau tir a chynllunio a fyddai'n hwyluso cyflawni Cytundeb Cyflenwi Tai 2016

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru, ynghyd â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi llofnodi Cytundeb Cyflenwi Tai sy'n addo cyflenwi 20,000 o gartrefi erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad. Gwelsom ddull rhagweithiol at gyflenwi gan ein haelodau (cyflenwodd cymdeithasau tai 14% yn fwy o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn ystod 2015-16 nag yn y flwyddyn flaenorol a chynyddodd y canran o'r holl gartrefi fforddiadwy a gyflenwyd gan gymdeithasau tai o 89% yn 2014-15 i 94% yn 2015-16), yn ogystal â chefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar wedd cyllid cyfalaf sylweddol (dros £100m mewn Grant Tai Cymdeithasol yn 2016/17 a £20m dechreuol ar gyfer rhaglen dylunio tai arloesol). Fodd bynnag, mae'n haelodau wedi lleisio pryderon fod heriau sylweddol o fewn y system cynllunio sy'n bygwth gweithredu fel rhwystrau i gyflawni'r targed.

Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a'u haelodau yn bartneriaid pwysig yn ein hymdrechion i gyrraedd y targed hwn. Gall y diwydiant adeiladu tai preifat helpu i gyflenwi elfen sylweddol o'r targed o 20,000 o dai fforddiadwy drwy'r 6,000 o gartrefi Cynllun Cymorth Prynu sydd ar y gweill yn ogystal â thrwy ddarparu canran o gartrefi fforddiadwy ar gynlluniau tai preifat, drwy adran 106.

Mae Ffederasiwn y Meistri Adeiladu (FMB) hefyd yn hynod eiddgar y caiff y targed 20,000 ei wireddu. Mae'r FMB yn cynrychioli cannoedd o gwmnïau adeiladu maint bach a chanolig ledled Cymru; sector oedd unwaith yn amlwg iawn o fewn y diwydiant adeiladu tai. Erbyn heddiw, rhyw chwarter yn unig o dai newydd sy'n cael eu hadeiladu gan gwmniau maint bach a chanolig, o'i gymharu a dwy ran o dair yn yr 1980au. Mae'r rhesymau am y dirywiad yma yn niferus, ond un rheswm yw'r ffaith fod y broses gynllunio yn aml yn fwy o rwystr nac o alluogwr i ddatblygu i adeiladwyr bach. Mae'r FMB yn eiddgar i gyd-weithio gyda rhanddeiliadau i ddatrys rhai o'r rhwystrau di-angen o fewn cynllunio, ac o wneud, i gymeryd cam sylweddol i gyrraedd y targed 20,000.

Gwelodd y system cynllunio nifer o newidiadau cadarnhaol mewn blynyddoedd diweddar a dylid canmol Llywodraeth Cymru am ei hyblygrwydd yn newid blaenoriaethau. Dadleuwn fod angen mwy o newidiadau i adlewyrchu sefydlu'r targed o 20,000, a fyddai'n ein galluogi i adeiladu'r cartrefi ansawdd da y mae pobl o Gymru eu hangen, a hynny'n gyflymach. Caiff ein hargymhellion allweddol am sut i gyflawni'r newidiadau hyn eu crynhoi yn y papur gwybodaeth yma.

Argymhelliad 1:
Edrych eto ar y strategaeth gwaredu tir gan roi ystyriaeth i'r targed tai fforddiadwy

“ Caiff faint o dir cyhoeddus a gyflwynir ar gyfer tai ei gyfyngu gan y disgwyliad o gynyddu derbyniadau cyfalaf ac amcanion polisi sy'n cystadlu “

- Adroddiad Cyflenwi Rhagor o Dai i Gymru, Llywodraeth Cymru 2014

“ Rhoi blaenoriaeth i ddefnydd creadigol o dir a cheisio rhyddhau tir y mae Llywodraeth Cymru ac eraill yn berchen arno ar gyfer tai “

- Cytundeb Cyflenwi Tai rhwng Llywodraeth Cymru CHC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Galluogwyr Allweddol, 2016

Argymhelliad 1:
Edrych eto ar y strategaeth gwaredu tir gan roi ystyriaeth i'r targed tai fforddiadwy

Mae gallu aelodau CHC, yr FMB ac aelodau'r FAC i gael mynediad i dir ar gost digon fforddiadwy i alluogi darpariaeth ddilynol tai fforddiadwy yn allweddol i gyrraedd y targed. Drwy gynyddu argaeledd safleoedd cyhoeddus, a brisiwyd ar bwynt sy'n dangos y gwerth cymdeithasol a gynigiant i bobl Cymru, gall Llywodraeth Cymru gefnogi ein haelodau i wneud camau sylweddol tuag at gyflenwi 20,000 o gartrefi fforddiadwy.

Dywedodd adroddiad Cyflenwi Rhagor o Gartrefi i Gymru y caiff faint o dir cyhoeddus a gyflwynir ar gyfer tai ei gyfyngu gan y disgwyliad o gynyddu derbyniadau cyfalaf ac amcanion polisi sy'n cystadlu.[1]

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu strategaethau ar gyfer gwaredu â thir cyhoeddus a'i diwygio i'w gwneud yn fwy ffafriol i ddatblygwyr tai fforddiadwy, yn gymdeithasau tai a hefyd ddatblygwyr preifat sy'n darparu cartrefi fforddiadwy. Mae enghreifftiau o sut y gellid cyflawni hyn yn cynnwys:

- **Awdurdodau lleol i ystyried canllawiau gwerth tir wrth waredu.**
- **Gallai awdurdodau lleol gynnig tir mewn arwerthiant i gymdeithasau tai yn y lle cyntaf, cyn mynd i'r farchnad agored.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir sicrhau ei thir ei hun, yn gystal â thir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Eglwys a sefydliadau eraill i ddatblygu tai fforddiadwy a dylai roi blaenoriaeth i ryddhau safleoedd addas. Gallai hyn fod drwy sefydlu targed ar gyfer y tir i'w ryddhau ar draws Llywodraeth Cymru.**
- **Cynigiwn gyflwyno cyfarwyddyd statudol sy'n argymell bod awdurdodau lleol yn ystyried gwerth cymdeithasol posibl tir yn ogystal â'i werth ariannol.**
- **Argymhellwn weithredu Cod Stadau GIG (Cymru), yng nghyswllt gwaredu â thir dan werth y farchnad (gwerthiant 'consesiwn'), sy'n rhoi ystyriaeth i'r gwerth cymdeithasol y bydd y tir yn ei gyflawni yn ogystal â'i werth ariannol, ar draws pob tir sector cyhoeddus.**[2]

- Cefnogwn yr argymhellion yn astudiaeth Llywodraeth Cymru o hyfywedd hydredol y broses cynllunio y dylai cyrff sector cyhoeddus ddatblygu strategaethau gwaredu y gellir eu cyflawni ar gyfer tir mewn perchnogaeth gyhoeddus gyda hanfod polisi o gefnogi cyflenwi cartrefi.

- Dylai cynllun Tir ar gyfer Tai Llywodraeth Cymru fod ar agor drwy'r flwyddyn i alluogi datblygwyr cartrefi fforddiadwy i ymgysylltu â'r farchnad yn barhaus.

- Mae CHC yn cefnogi'r galwad gan Ffederasiwn Adeiladwyr Tai Cartrefi i gynnwys cyflenwad tir ar gyfer datblygiadau tai strategol arwyddocaol a seilwaith cefnogi cysylltiedig o fewn cwmpas Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

- Mae Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru yn cefnogi'r galwad i gymdeithasau tai gael blaenoriaeth ar gyfer tir ar gyfer tai ar yr amod, yn yr achosion prin lle na all cymdeithasau tai wedyn ddangos capasiti i adeiladu ar y cyfan o'r safle, y caiff wedyn ei gynnig i ddatblygwyr preifat gyda gofyniad ychydig yn uwch am dai fforddiadwy, yn seiliedig ar ostwng pris prynu'r tir i sicrhau cadw hyfywedd.

[1] http://gov.wales/docs/desh/publications/140130delivering-more-homes-for-wales-en.pdf
[2] http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC(2007)088.pdf

Argymhelliad 2:
Adolygu'r defnydd o Adran 106

“ Byddem yn croesawu fformat safonol ar gyfer tra-fodaethau adran 106, gan roi sicrwydd i gymdeithasau tai ac atal rhai trafodaethau cyfreithiol sydd weithiau'n ormodol ac ailadroddus “

- Aelod CCC

Argymhelliad 2:
Adolygu'r defnydd o Adran 106

Mae'n hen bryd gwella'r system Adran 106, yn neilltuol yng nghyswllt cysondeb ei weithrediad. Dywed aelodau fod awdurdodau cynllunio lleol yn aml yn codi'r un lefel o gyfraniad ariannol tuag at welliannau oddi ar y safle ar gynigion datblygu tai fforddiadwy ag a godant ar ddatblygwyr adeiladau tai preifat, sy'n gwneud cyflenwi tai fforddiadwy yn anodd iawn ac yn aml yn amhosibl ei gyflawni ar brosiectau y mae angen iddynt gyrraedd Canllawiau Cost Derbyniol (CG) Llywodraeth Cymru.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o ymarfer Adran 106 yng Nghymru a sut y gellid ei ddiwygio i hybu cyflenwi'r targed tai fforddiadwy.

Dylai'r adolygiad hwn ystyried yn benodol:

- **P'un ai a ddylai cytundebau Adran 106 gynnwys cymal fod y gofyniad tai fforddiadwy yn dod i ben os gwerthir y safle i gymdeithasau tai.**
- **Sut i sicrhau lefel cysondeb wrth weithredu Adran 106 - dywed aelodau fod yr anghysondeb rhwng safleoedd yn ychwanegu haen o gymhlethdod diangen i'r proses, gan arafu datblygiad.**
- **Sut i gynnwys cymdeithasau tai mewn trafodaethau Adran 106 ar gam lawer ynghynt, a fyddai'n cynyddu'r tebygrwydd y byddai cyfran fwy o ddatblygiad tai fforddiadwy yn cael ei gynnwys yn y ddêl.**

Argymhelliad 3:
Cynyddu Adnoddau Cynllunio Awdurdodau Lleol

“ Byddem yn croesawu fformat safonol ar gyfer trafodaethau adran 106, gan roi sicrwydd i gymdeithasau tai ac atal rhai trafodaethau cyfreithiol sydd weithiau’n ormodol ac ailadroddus “

- Aelod CCC

“ Mae trafodaethau Adran 106 yn anochel yn gorffen lan fel dwyochrog h.y. rhwng y gwerthwr a’r datblygydd ... mae angen i gymdeithasau tai fod â rhan yn gynnar er mwyn helpu llunio telerau’r ddogfen a sicrhau fod y telerau a osodir ar dai fforddiadwy yn dderbyniol i fenthycwyr y gymdeithas “

- Aelod CCC

Argymhelliad 3:
Cynyddu Adnoddau Cynllunio Awdurdodau Lleol

Mae adrannau cynllunio awdurdodau lleol ymysg y rhai sydd wedi dioddef waethaf oherwydd rhaglen llymder Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn wir, dywedodd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diwygio Llywodraeth Cymru: Cadernid ac Adnewyddiad' "Rhwng 2009/10 a 2016/17, bu lleihad o 53% yn yr adnoddau sydd wedi eu neilltuo ar gyfer y swyddogaeth gynllunio. Dyma'r lleihad mwyaf o blith holl feysydd gwasanaeth yr Awdurdodau Lleol".[3] Mae'r canlyniadau ar amseriad cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy yn amlwg a dybryd.

I oresgyn hyn, gwnawn yr argymhellion dilynol:

- **Gellid gwella adnoddau awdurdodau cynllunio lleol drwy gyflwyno ffi cynllunio uwch a gaiff ei gosod a'i chadw'n lleol o fewn yr awdurdodau cynllunio lleol. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar ymarferoldeb hyn a'r gwelliannau gwasanaeth a ddisgwylid. Mae aelodau CHC yn agored i drafodaeth am gynyddu ffioedd, os yw'n golygu fod y gwasanaeth a ddarperir yn eu galluogi i gyrraedd eu targedau.**

- **Llywodraeth Cymru i astudio maint yr oedi y mae prosesau cynllunio awdurdodau lleol yn ei achosi i gyflenwad tai fforddiadwy ac ystyried effeithiolrwydd sancsiynau presennol ar gyfer oedi tu hwnt i amserau ymateb statudol, yn ogystal â dosbarthu arfer da yn y maes hwn.**

[3] https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/170130-white-paper-en.pdf

Argymhelliad 4:
Cynyddu dibynadwyedd cynllunio

“ Rydym yn canfod fod swyddogion cynllunio dan bwysau a heb ddigon o adnoddau a dyma’r un ffactor fwyaf sy’n achosi oedi wrth gynllunio. Byddem felly’n croesawu buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn ac ystyriwn y byddai ffioedd ar gyfer cyngor cyn gwneud cais, er enghraifft, yn gwneud cyfraniad bach at ddatrys y broblem fawr yma “

- Aelod CCC

Argymhelliad 4:
Cynyddu dibynadwyedd cynllunio

Mae ein haelodau yn nodi nifer o feysydd o gonsyrn yng nghyswllt dibynadwyedd y prosesau o gael caniatâd cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy. Mae stigma tuag at dai cymdeithasol yn fygythiad gwirioneddol i ddatblygiad nifer ddigonol o gartrefi fforddiadwy ac mae meysydd o'r broses cynllunio, megis rheoleiddio ymgynghoriad cyhoeddus a gwaith aelodau etholedig ar bwyllgorau cynllunio, mewn risg o gael eu tanseilio gan stigma o'r fath.

Gwnawn yr awgrymiadau dilynol i wella dibynadwyedd cynllunio:

- **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio fel sydd angen y broses ymgynghori cyn gwneud cais ar ôl ei blwyddyn gyntaf, os canfyddir ei bod yn anghymesur o niweidiol i ddatblygiad cartrefi fforddiadwy newydd. Er ein bod ni, fel sector, yn gadarn ein cefnogaeth i gysyniad ymgynghori, os yw polisïau allweddol Llywodraeth Cymru yn cael eu tanseilio gan y newid hwn mewn deddfwriaeth yna mae angen arweinyddiaeth a blaenoriaethu gan Ysgrifenyddion Cabinet sy'n gyfrifol am Gynllunio a Thai.**

- **Dylai Llywodraeth Cymru edrych eto ar eu hadroddiad Cyflenwi Rhagor o Gartrefi i Gymru, gan gyfeirio'n neilltuol at yr argymhelliad fod pob awdurdod lleol yn penodi hyrwyddwr cartrefi newydd fyddai â swydd yn y cabinet i hyrwyddo achos tai. Gwerthfawrogwn y rhoddwyd ystyriaeth ddifrifol i'r argymhelliad hwn yn y gorffennol cyn ei wrthod, ond credwn fod y cyd-destun wedi newid gyda llofnodi'r Cytundeb Cyflenwi Tai ac y byddai'r rôl hon yn rhoi hwb ychwanegol y mae ei fawr angen i ddatblygiad tai.**

- Deallwn fod Cymdeithas Tai Llywodraeth Leol yn darparu gwybodaeth hyfforddiant i aelodau etholedig ar ddeall cynllunio a'r angen am dai fforddiadwy, a chefnogwn hwn fel safon ofynnol. Mae argymhellion papur RTPI Cymru, Astudiaeth i Bwyllgorau Cynllunio yng Nghymru, yn rhoi trosolwg drwyadl o ba lefel hyfforddiant y dylid ei chynnig i aelodau pwyllgorau cynllunio a gofynnwn fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhoi diweddariad ar p'un ai yw'r lefel yma'n cael ei chyrraedd, yn neilltuol yng ngoleuni'r llu o aelodau newydd y cyngor yn dilyn etholiadau 4 Mai 2017.[4]

- Argymhellwn fod y broses a weithredir mewn rhai awdurdodau, lle bod yn rhaid i aelodau etholedig sy'n gwrthod ceisiadau yn erbyn cyngor, amddiffyn eu sefyllfaoedd yn bersonol mewn ymchwiliad yn hytrach na gadael hynny i aelod o staff y cyngor, yn cael ei gweithredu yn genedlaethol. Byddai hyn yn golygu fod aelodau etholedig yn rhoi ystyriaeth ychwanegol i'w rhesymau am wrthwynebu a bod eglurdeb llwyr am y rhesymau dros wneud hynny.

- Argymhellwn y dylid ehangu'r data a gasglwyd yn Arolg Chwarterol Rheoli Datblygu er mwyn caniatau cynnwys penderfyniad ar nifer y safleoedd cartrefi fforddiadwy (posibl). Byddai'r data hwn yn ein galluogi i weld os oedd ardaloedd lle roedd tai fforddiadwy yn fwy tebygol o gael eu derbyn/gwrthod yn grores i argymhelliad. Gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hon i bwyso am welliannau mewn ardaloedd sy'n dangos presenoldeb anarferol o uchel o wrthod caniatâd am dai fforddiadwy yn erbyn cyngor.

[3] http://www.rtpi.org.uk/media/539677/seminar_presentation_committees_in_wales_130604_to_rtpi.pdf

Argymhelliad 5:
Gweithredu cyflymach ar y safle

“ Os yw’r amcan o bwyllgorau tai cyson, effeithlon ac effeithiol i gael ei wireddu yna mae angen dileu’r ‘rhwystrau’ rhyng-awdurdod o amgylch ymarfer dydd-i-ddydd. Argymhellir mai’r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy symud at rannu darpariaeth hyfforddiant “

- Astudiaeth RTPI Cymru i Weithrediad Pwyllgorau Cynllunio yng Nghymru, 2013

Argymhelliad 5:
Gweithredu cyflymach ar y safle

Yn ogystal â'r materion sy'n arafu cynnydd yn y broses caffael tir a phroses cael caniatâd cynllunio, rydym hefyd wedi ystyried rhai o'r problemau sy'n wynebu datblygwyr tai fforddiadwy pan ânt ar y safle, gyda sylw neilltuol i rôl cwmnïau cyfleustodau.

A gwnawn yr argymhellion dilynol am sut i'w trin:

- **Codwyd pryderon sylweddol ac amrywiol gyda CHC parthed rôl cwmnïau cyfleustodau yn oedi datblygu. Argymhellwn gynnal trafodaethau lefel strategol fel mater o frys i sicrhau fod cwmnïau cyfleustod yn gweld y targed o 20,000 o dai fforddiadwy fel blaenoriaeth traws-sector. Mae angen arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r targed hwn a dylid hysbysu pob corff seilwaith a statudol am bwysigrwydd cyflawni hyn. Yn benodol, galwn ar Lywodraeth Cymru i gynnull grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl brif gwmnïau cyfleustodau, ynghyd ag aelodau CHC, FAC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i benderfynu ble mae'r rhwystredigaeth yn y system a beth ellir ei wneud i gyflymu'r broses a chael cartrefi'n barod i bobl fyw ynddynt cyn gynted ag sy'n bosibl.**

- **Dylai awdurdodau lleol ostwng, neu'n ddelfrydol ddileu, pob amod cyn-cychwyn o ganiatâd cynllunio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan yn hytrach ysgrifennu amodau sy'n rhaid eu bodloni cyn i'r preswylydd cyntaf symud i'r datblygiad.**

- **Yng nghyswllt adeiladu priffyrdd, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar Adran 278 a chynnwys yr argymhelliad y dylai'r datblygydd gael dewis wrth bendrefynu pwy sy'n gwneud gwaith priffyrdd. Byddai hyn yn sicrhau gwerth am arian a hwyluso datblygiad.**

Argymhelliad 6:
Atgyfnerthu'r system dan arweiniad cynllun

“ Rwy'n disgwyl i bob Awdurdod Cynllunio Lleol roi blaenoriaeth i baratoi neu amnewid Cynlluniau Datblygu Lleol, yn cynnwys rhoi ystyriaeth lawn i gynhyrchu cynlluniau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos. I fod yn glir, mae'n rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ddarparu cyflenwad tir sy'n wirioneddol ar gael ar gyfer tai, yn seiliedig ar gyflawni'r gofynion tai a ddynodwyd yn eu Cynllun Datblygu. Mae hyn yn egwyddor greiddiol i'r system cynllunio a sefydlwyd gan Bolisi Cynllunio Cymru ers 2002 ac mae'n rhan gyfannol o baratoi Cynllun Datblygu Lleol “

- Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, o lythyr i Benaethiaid Cynllunio dyddiedig 23 Chwefror 2017

Argymhelliad 6:
Atgyfnerthu'r system dan arweiniad cynllun

Mae'r FAC, the FMB a CHC yn credu nad yw'r system dan arweiniad cynllun yn cefnogi cyflenwi cartrefi newydd yng Nghymru fel y dylai. Rydym yn bryderus ein bod mewn risg ar hyn o bryd o 'wagle polisi' lle mae nifer o gynlluniau allan o ddyddiad yn cael eu hadolygu tra'n bod yn disgwyl i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol gael eu mabwysiadu.

Mae'r camau gweithredu y credwn fod eu hangen yn cynnwys:

- **Ni ddylid caniatau i awdurdodau cynllunio lleol atal gwaith ar adolygu cynlluniau tra maent yn aros am fabwysiadu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r Cynllun Datblygu Strategol.**

- **Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi i sicrhau y caiff y cynlluniau eu mabwysiadu a'u hadolygu'n amserol i sicrhau bod cynlluniau'n parhau i fod yn weithredol.**

- **Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol sydd â llai na phum mlynedd o gyflenwad tir i helpu cynyddu argaeledd safleoedd tai dichonadwy, drwy roi caniatâd ar gyfer datblygiad amgen neu ddyrannu safleoedd ychwanegol ar gyfer tai mewn adolygiad o'u cynllun datblygu lleol.**

- **Llywodraeth Cymru i egluro rôl yr awdurdod yn monitro adroddiadau wrth fonitro cyflenwi cynllun a'u sefyllfa yn nhermau awdurdodau cynllunio lleol sy'n 'methu'. A yw'r lefel o ddatblygiad a sicrhawyd yn unol â'u cynllun datblygu lleol yn ystyriaeth?**

Casgliad

Er bod ffrydiau refeniw yn tynhau fel canlyniad i sefyllfa Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llesiant, dangosodd aelodau CHC, FMB a FAC fod ganddynt ymrwymiad i gyflawni'r targed cyflenwi tai. Os gall Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyflawni'r argymhellion a amlinellir yn y papur gwybodaeth yma, byddant wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'n gallu i gyrraedd y garreg filltir. Yn fwy na hyn, byddant hefyd wedi sicrhau y gallwn fynd tu hwnt i'r lefel hon yn y dyfodol, gan weithio mewn amgylchedd cynllunio sy'n ffafrio cyflenwi cartrefi fforddiadwy y mae eu mawr angen.

Cysylltu:

Cartrefi Cymunedol Cymru
Hugh Russell
Swyddog Polisi
hugh-russell@chcymru.org.uk
www.chcymru.org.uk

Ffederaswin Adeiladu Cartrefi Cymru
Mark Harris
Cynghorwyr Cynllunio a Polisi Cymru
mark.harris@hbf.co.uk
www.hbf.co.uk

Ffederasiwn y Meistri Adeiladu
Ifan Glyn
Cyfarwyddwr FMB Cymru
IfanGlyn@fmb.org.uk
www.fmb.org.uk